



# **Canllaw Ymarfer Gogledd Cymru**

## **Ymholiadau ar y Cyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a Heddlu Gogledd Cymru**

Fersiwn 1, Hydref 2020

## **1.0. Canllaw ymarfer ymholiadau ar y cyd gan y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu**

- 1.1. Diben y canllaw ymarfer hwn yn nodi pryd y dylid cynnal ymholiadau ar y cyd rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol a Heddlu Gogledd Cymru (gweler Atodiad 1)
- 1.2. Os bydd y cyfarfod trafod strategaeth yn penderfynu cynnal Ymholiadau a47 gallant gynnal ymchwiliadau yn ymwneud â throstedd(au) cysylltiol posibl ar y cyd gyda'r heddlu.
- 1.3. Pan fydd ymholiadau ar y cyd yn cael eu cynnal, mae'r heddlu yn gyfrifol am yr ymchwiliad troseddol ac mae'r awdurdod lleol yn arwain ymholiadau a47 a lles y plentyn.

## **2.0. Cynnwys y plentyn mewn ymchwiliadau gan yr heddlu**

- 2.1. Mae'n hanfodol ymgynghori gyda'r plentyn, yn ddarostyngedig i oedran a dealltwriaeth am yr hyn sy'n digwydd a'i helpu i ddeall y broses, y camau a gymerir, y goblygiadau a chanlyniadau posibl.
- 2.2. Dylai'r plentyn bob amser gael ei hysbysu am y broses a deilliant ymholiadau amddiffyn plant ac ymchwiliad troseddol, yn ddarostyngedig i oedran a lefel dealltwriaeth.

Gan fod yr Heddlu yn arwain holl ymchwiliadau troseddol eu cyfrifoldeb nhw fydd hysbysu'r plentyn/plant, ble bo'n briodol am ymchwiliadau troseddol.

### **Atodiad 1**

<b>HONIAD O GAM-DRIN RHYWIOL</b>	
<b>Math o atgyfeiriad/adroddiad</b>	<b>Trothwy ymyrraeth</b>
<b>Honiad o gam-drin plentyn yn rhywiol</b>	Bydd y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu bob amser yn cynnal ymholiadau Amddiffyn Plant Adran 47 ar y cyd.
<b>Canfyddiadau meddygol diagnostig o gam-drin meddygol;</b> hynny yw, mae plentyn yn cael ei archwilio'n feddygol ac mae'r pediatrydd yn adrodd bod yna ddangosyddion meddygol o gam-drin rhywiol gyda/heb y plentyn yn gwneud honiad neu gadarnhad arall.	Bydd y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu bob amser yn cynnal ymholiadau Amddiffyn Plant Adran 47 ar y cyd.

<p><b>Canfyddiadau meddygol nad yw'n ddiagnostig o gam-drin meddygol;</b> hynny yw, mae plentyn yn cael ei archwilio'n feddygol ac mae'r pediatrydd yn adrodd bod yna ddangosyddion meddygol o gam-drin rhywiol ond nid yw'n derfynol. Nid yw'r plentyn yn gwneud honiad, neu mae'n rhy ifanc.</p>	<p>Bydd y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu bob amser yn cynnal ymholiadau Amddiffyn Plant Adran 47 ar y cyd.</p>
<p><b>Plentyn yn arddangos ymddygiad rhywiol</b></p>	<p>Gwasanaethau cymdeithasol i gynnal ymholiadau un asiantaeth, oni bai bod yna wybodaeth/tystiolaeth i ddangos trosedd.</p> <p>Os bydd gwybodaeth/tystiolaeth yn dangos yn ystod ymholiadau un asiantaeth y cynhaliwyd trosedd, er enghraifft, cam-drin rhywiol plentyn, bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn hysbysu'r heddlu.</p> <p>Bydd trafodaeth/cyfarfod strategaeth yn cael ei gynnal a bydd gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu yn cynnal ymholiadau Amddiffyn Plant Adran 47 ar y cyd</p>
<p><b>Pobl ifanc sy'n cael rhyw</b></p> <p><b>Plant dan 13 oed</b></p> <p><b>Pobl ifanc rhwng 13 ac 16 oed.</b></p>	<p>Cyfeiriwch at <i>Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru</i></p> <p>Yn unol â'r Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 nid yw plant o dan 13 oed yn ddigon hen i roi caniatâd i weithgaredd rhywiol. Ymchwiliad ar y cyd i gael ei gynnal</p> <p>Bydd y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu bob amser yn cynnal ymholiadau Amddiffyn Plant Adran 47 ar y cyd.</p> <p>Yn unol â'r Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 mae'r oedran ar gyfer cydsyniad cyfreithiol i weithgaredd rhywiol yn parhau'n 16 oed, er y cydnabyddir bod gweithgaredd rhywiol nad yw'n ecsbloetiol y cytunir arno yn digwydd rhwng pobl yn eu harddegau ac nad yw'n achosi niwed sylweddol.</p> <p>Os bydd asesiad cychwynnol yn dangos nad yw'r gweithgaredd rhywiol yn ecsbloetiol nac yn gymhellol, a bod y ddau berson ifanc yn</p>

	<p>cydsynio, fel arfer argymhellir bod ymyrraeth iechyd ac/neu wasanaethau cymdeithasol yn cael ei gynnal.</p> <p>Er bod trosedd wedi'i gyflawni, mewn amgylchiadau o'r fath bydd yr heddlu yn penderfynu ar lefel unrhyw ymchwiliad troseddol, ond ni cheisir troseddoli person ifanc.</p> <p>Yn ystod yr ymyrraeth gwasanaethau cymdeithasol ac/neu iechyd ei bod yn amlwg bod y person ifanc wedi'i ecsbloetio, ei orfodi ac/neu nad oedd wedi cydsynio i'r gweithgaredd rhywiol, dylai trafodaeth/cyfarfod strategaeth gael ei ail-gynnal a chytuno ar gamau gweithredu yn unol á Gweithdrefnau Amddiffyn Cymru.</p>
<p><b>Pobl ifanc rhwng 17 ac 18 oed.</b></p>	<p>Nid yw cydsynio i weithgaredd rhywiol yn drosedd dros 16 oed, fodd bynnag mae pobl ifanc yn parhau i gael eu diogelu gan y <i>Ddeddf Plant 1989</i>. Mewn unrhyw drafodaeth/cyfarfod strategaeth Asesu Gofal a Chefnogaeth mae angen ystyried materion cam-fanteisio'n rhywiol a chamddefnyddio grym wrth wneud penderfyniad am ymyrraeth.</p>
	<p>Yn unol á Deddf Troseddau Rhywiol 2003 ni ystyrir bod y person ifanc yn y grŵp oedran hwn yn gallu rhoi cydsyniad os yw'r partner rhywiol mewn sefyllfa o ymddiriedaeth broffesiynol, fel gofalwr maeth neu athro, neu'n aelod o'r teulu fel y diffinnir yn y ddeddfwriaeth. Os bydd cwyn yn erbyn gweithiwr proffesiynol bydd angen dilyn Gweithdrefnau Amddiffyn Cymru Adran 5.</p>
	<p>Os derbynnir adroddiad sy'n nodi bod plentyn wedi'i gam-drin gan blentyn arall nad yw'n dod o fewn y meini prawf uchod, hynny yw, nid ydynt mewn perthynas, gweler yr Adran isod: <i>Honiad bod plentyn neu berson ifanc yn dangos ymddygiad rhywiol niweidiol.</i></p>

<b>Honiad bod plentyn neu berson ifanc yn dangos ymddygiad rhywiol niweidiol.</b>	Mae'n bosibl y bydd yr atgyfeiriad cyntaf yn cael ei wneud yn uniongyrchol i'r heddlu a bydd ymchwiliad troseddol yn dechrau. Dylai'r heddlu ystyried y mater fel atgyfeiriad Amddiffyn Plant a dylid bob amser hysbysu'r gwasanaethau cymdeithasol.
	Dylid dilyn protocol Ymddygiad Rhywiol Niweidiol perthnasol.
	Dylid gwahodd y Gwasanaeth Troseddau leuenctid i drafodaeth/cyfarfod strategaeth bob amser.
	Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau dylid cynnal ymholiadau Amddiffyn Plant gan yr heddlu mewn perthynas â'r dioddefwr honedig.
	Bydd yr heddlu yn cyfweld y sawl sy'n cyflawni trosedd yn unol â Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984

#### **HONIAID O GAM-DRIN CORFFOROL**

<b>Math o atgyfeiriad/adroddiad</b>	<b>Canllawiau ymyrraeth</b>
<b>Honiad o gam-drin corfforol gydag anafiadau i blant;</b> hynny yw, tystiolaeth feddygol o anafiadau, gyda/heb honiad gan y plentyn.	Bydd y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu bob amser yn cynnal ymholiadau Amddiffyn Plant Adran 47 ar y cyd.
<b>Adroddiad am bryder bod plentyn o bosibl wedi'i gam-drin yn gorfforol, ond nad yw'r plentyn wedi gwneud honiad ac nid oes unrhyw anafiadau</b>	Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnal Asesiad Gofal a Chefnogaeth ac/neu ymholiadau adran 47 os oes angen, hysbysu'r heddlu am y canlyniad ac ystyried a oes angen cyfraniad pellach yr Heddlu.  Os bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn ymwybodol wrth gynnal asesiad neu ymholiadau bod yna gam-drin mwy difrifol, sy'n gwarantu ymchwiliad troseddol, bydd yr Heddlu yn cael eu hysbysu a chynhelir trafodaeth/cyfarfod strategaeth i benderfynu a ddylid cynnal ymholiadau Amddiffyn Plant Adran 47.

#### **HONIAID O ESGEULUSTOD**

<b>Math o atgyfeiriad/adroddiad</b>	<b>Canllawiau ymyrraeth</b>
<b>Honiad/adroddiad o esgeulustod difrifol</b> yn nodi bod yr esgeulustod yn gyson ac yn ddifrifol, a bod plentyn yn dioddef neu'n debyg o ddioddef niwed sylweddol.	Bydd y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu yn cynnal ymholiadau Amddiffyn Plant Adran 47.
<b>Honiad/adroddiad o esgeulustod</b> ble mae yna bryderon am les y plentyn, ond nid yw'r esgeulustod yn cael ei asesu ar y dechrau fel esgeulustod cyson ac/neu ddifrifol sy'n gwarantu ymchwiliad troseddol.	Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnal Asesiad Gofal a Chefnogaeth ac ystyried ymholiadau Amddiffyn Plant Adran 47 un asiantaeth ac/neu ymyrraeth ddiogelu. Os bydd angen, yr Heddlu i dderbyn diweddariad gyda chanlyniad i ystyried a oes angen cynnwys yr Heddlu ymhellach. Os bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn ymwybodol wrth gynnal asesiad neu ymholiadau bod yna esgeulustod mwy difrifol, sy'n gwarantu ymchwiliad troseddol, bydd yr Heddlu yn cael eu hysbysu a chynhelir trafodaeth/cyfarfod strategaeth i benderfynu a ddylid cynnal ymholiadau Amddiffyn Plant Adran 47.

### **HONIAD O GAM-DRIN EMOSIYNOL**

<b>Math o atgyfeiriad/adroddiad</b>	<b>Canllawiau ymyrraeth</b>
<b>Honiad/adroddiad bod plentyn yn cael ei gam-drin yn emosiynol</b> , a adroddir sy'n gyson ac yn ddifrifol a bod y plentyn yn dioddef neu'n debyg o ddioddef niwed sylweddol.	Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnal Asesiad Gofal a Chefnogaeth ac/neu ymyrraeth ddiogelu. Os bydd angen, yr Heddlu i dderbyn diweddariad gyda chanlyniad i ystyried a oes angen cynnwys yr Heddlu ymhellach.  Os bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn ymwybodol wrth gynnal asesiad neu ymholiadau bod yna gam-drin mwy difrifol, sy'n gwarantu ymchwiliad troseddol, bydd yr Heddlu yn cael eu hysbysu a chynhelir trafodaeth/cyfarfod strategaeth i benderfynu a ddylid cynnal ymholiadau Amddiffyn Plant Adran 47.